# POLISI CWYNION

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:** | 03/03/2025 |
| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg:** | 03/03/2025 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd |
| **Haen:** | 2 |
| **Awdur:** | Ivan Gregory - Prifathro Cynorthwyol - Cynhwysiant a Chymorth i Ddysgwyr |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 10/06/2025 |
| **Dyddiad Adolygu:** | 06/2028 |
| **Cyhoeddwyd ar:** | Gwefan<br>Mewnrwyd y Staff<br>CG Connect |
| **Hygyrchedd:** | Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais |

Gall y copi hwn fod yn hen os yw wedi'i argraffu.
Mae ein holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar fewnrwyd y staff.

## COLEG GWENT

### POLISI CWYNION

### DATGANIAD POLISI

Gweledigaeth y coleg yw bod Y Coleg o Ddewis. Mae'r coleg wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedau dysgu lle mae dysgwyr yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal wrth lunio eu profiad dysgu.

Mae darparu gwasanaeth o safon uchel yn bwysig a dim ond un o'r ffyrdd a ddefnyddir i wella profiad y cwsmer yw rheoli cwynion ffurfiol. Mae'r ffyrdd eraill a ddefnyddir i ymgysylltu â dysgwyr yn cynnwys holiaduron rheolaidd, fforymau dysgwyr a grwpiau ffocws. Defnyddir adborth gan bob un o'r rhain i wella profiad dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach.

### PWRPAS A CHWMPAS

Mae'r Polisi hwn yn ymgorffori'r gofyniad i roi sylw dyledus i bob grŵp o ddysgwyr yn ôl nodwedd warchodedig cydraddoldeb ac i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael gafael ar unrhyw gwynion sydd ganddynt a mynd ar drywydd y cwynion hynny'n briodol.

Mae'r Coleg yn ystyried cwyn fel mynegiant o anfodlonrwydd gan un cwsmer neu fwy am weithredoedd neu ddiffyg gweithredu'r Coleg, neu am safon y gwasanaeth a ddarperir gan y Coleg neu ar ei ran. Mae enghreifftiau o'r hyn sy'n gyfystyr â chwyn wedi'u cynnwys yn Atodiad A, ac mae Atodiad B yn rhoi arweiniad i wahaniaethu rhwng cwynion difrifol a rhai nad ydynt yn rhai difrifol.

Mae'r Polisi hwn yn ymdrin â chwynion gan ddarpar ddysgwyr, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr, aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, sy'n ymwneud â phob agwedd ar weithgareddau'r coleg, e.e.: cyrsiau addysg bellach ac uwch, dysgu seiliedig ar waith, cyrsiau masnachol ac addysg gymunedol. Mae'r gweithdrefnau wedi'u cynllunio i ddelio ag unrhyw agwedd ar ein gwasanaethau gan gynnwys addysgu a hyfforddi, gwasanaethau cymorth, cyngor ac arweiniad a chyfleusterau'r coleg, lle mae achwynydd/achwynwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg neu'n amhriodol, neu os ydynt yn teimlo nad yw'r gwasanaeth a gawsant yn bodloni eu disgwyliadau.

Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys sylwadau gan ddysgwyr yn erbyn penderfyniadau a wnaed mewn arholiadau ac asesiadau gan fod hyn yn cael sylw yn y Polisi a Gweithdrefnau Apeliadau Dysgwyr sydd ar gael yn http://learners.coleggwent.ac.uk/. Gall dysgwyr hefyd gyfeirio at bolisi priodol y corff dyfarnu ar asesu a chydymffurfio.

## EIN HADDEWID:

- Cyhoeddi ein Polisi a Gweithdrefn Gwyno ymysg darpar ddysgwyr, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr ac aelodau o'r cyhoedd, drwy wefan y coleg a'r Porth Dysgwr. Bydd copïau caled ar gael hefyd yn nerbynfeydd y campws. Yn yr un modd â chyhoeddiadau eraill y coleg, gellir gofyn am gyfryngau eraill i fodloni gofynion unigol. Mae'r polisi a'r weithdrefn hon hefyd ar gael yn Saesneg.

- Ymchwilio i gwynion yn gyflym ac yn effeithiol mewn modd cwrtais a moesgar.

- Cyn belled ag y bo modd, delio â chwynion yn gyfrinachol.

- Sicrhau bod cwynion yn cyrraedd y person iawn ar unwaith, a bod yr achwynydd yn gwybod pwy sy'n delio â'r gŵyn.

- Ymchwilio'n drylwyr i gwynion, a darparu ateb cyflym lle bo hynny'n briodol i atal y broblem rhag codi eto.

- Rhoi gwybod i ddysgwyr a chwsmeriaid ehangach am ein cynnydd o ran datrys eu problemau.

- Monitro a dadansoddi cwynion yn rheolaidd a defnyddio'r wybodaeth hon i wella ein systemau a'n gwasanaethau yn y dyfodol.

## DYSGWYR SY'N ASTUDIO CYRSIAU AU BREINIOL YN Y BRIFYSGOL:

(Prifysgol De Cymru, Prifysgol Caerwrangon, Prifysgol Aberystwyth)

Mae'r cytundeb rhwng y Brifysgol a Choleg Gwent yn nodi:

- Bydd partneriaid yn cael mynediad at y Rheoliadau a Gweithdrefnau Cwynion Myfyrwyr lle mae'r gŵyn yn ymwneud â materion academaidd; lle mae materion yn gyfrifoldeb i'r partner, er enghraifft cyfleusterau crèche, dylai dysgwyr droi at Weithdrefnau Cwynion Coleg Gwent.

Os dilynir Gweithdrefnau Cwynion Coleg Gwent, rhaid rhoi llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (Atodiad D) i'r dysgwr pan fo'r gŵyn yn cael ei chau. Bydd yr achwynydd wedyn yn gallu cysylltu â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) os yw'n dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad. Cyfeiriwch at Atodiad D.

## Y WEITHDREFN GWYNO

## Cam 1 (Datrysiad Rheng Flaen)

Lle mae materion yn syml ac yn hawdd eu datrys, lle nad oes angen fawr ddim o ymchwiliad, neu ddim ymchwiliad o gwbl, dylid trafod y rhain ar unwaith gyda'r staff sy'n uniongyrchol gysylltiedig. Gall Arweinydd y Cwrs, yr Hyfforddwr Llwyddiant neu'r Hyfforddwr ddelio â phryderon am gyrsiau. Gall Pennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr ddelio â phryderon am gymorth i ddysgwyr. Os nad ydych yn siŵr, dylai'r unigolyn gysylltu â'r Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr a fydd yn gallu rhoi cyngor (cyfeiriwch at y Cysylltiadau Defnyddiol yng nghefn y llyfryn hwn).

### Cam 2 (Cwyn Ffurfiol)

Lle na fu'n bosibl datrys materion o dan Gam 1, dylid llenwi Ffurflen Adborth Cwsmeriaid/ Ffurflen Gwyno, sydd ar gael ar y Porth Dysgwyr ac ar wefan y coleg. Bydd unigolion sydd eisoes yn astudio yn y coleg yn cael eu hannog i sicrhau bod y sianeli cywir eisoes wedi cael eu dilyn cyn cofnodi cwyn ffurfiol, h.y. Cam 1 uchod.

Bydd y gŵyn yn cael ei chyflwyno'n electronig a bydd yn cael ei chyfeirio at yr ARWEINYDD enwebedig fel y bo'n briodol, er enghraifft:

- **Cynorthwyydd Personol Cyfadran y Prifathro Cynorthwyol:** Pryderon ynghylch y cwricwlwm, addysgu a dysgu
- **Pennaeth Darpariaeth Allanol:** Pryderon ynghylch Addysg Gymunedol
- **Prifathro Cynorthwyol (Cynhwysiant a Chymorth i Ddysgwyr):** Pryderon yn ymwneud â materion ar draws y coleg, gan gynnwys cwynion yn ymwneud â chydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau Cymraeg
- **Pennaeth Darpariaeth Allanol:** Pryderon yn ymwneud â dysgu yn y gwaith

Anfonir ymateb awtomatig i gydnabod derbyn y gŵyn. Bydd yr ARWEINYDD wedyn yn adolygu'r gŵyn ac yn anfon cydnabyddiaeth (Atodiad C) o fewn 5 diwrnod gwaith, gan nodi:

- Y rheolwr a fydd yn delio â'r gŵyn.
- Sut yr ymdrinnir â'r gŵyn.
- Pryd y gellir disgwyl ymateb llawn (uchafswm o 15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y gŵyn)

Os na all y coleg ymateb o fewn yr amser hwn, bydd yr ARWEINYDD yn ysgrifennu i egluro'r rhesymau dros yr oedi ac yn nodi pryd y gellir disgwyl ymateb. Darperir ymateb llawn yn ysgrifenedig.
Os bydd cwyn 'oddi ar y system' (e.e. ar lafar, dros y ffôn, ar gyfryngau cymdeithasol), bydd y gŵyn yn cael ei chofnodi ar y porth cwynion gan yr ARWEINYDD priodol a bydd yn cael ei phrosesu yn unol â hynny.

Nod y coleg yw datrys unrhyw bryderon yn gyflym ac i safon uchel. Fodd bynnag, os nad yw'r unigolyn yn fodlon â chanlyniad Cam 2, rhaid cyflwyno apêl (Cam 3) o fewn 15 diwrnod gwaith i dderbyn yr ymateb o Gam 2.

## Cam 3 (Apeliadau)

Rhaid gwneud unrhyw apêl yn ysgrifenedig i'r Is-Brifathro (Partneriaethau a Thaith y Dysgwr) o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad ein hymateb i Gam 2. Bydd penderfyniad yr Is-Brifathro yn derfynol.

Dim ond pan fydd unrhyw un o'r amodau canlynol wedi'u bodloni y bydd ceisiadau am Apêl yn cael eu hystyried:

- Gellir cyflwyno tystiolaeth newydd nad oedd ar gael i'r rheolwr ar Gam 2, a/neu
- Ni chynhaliwyd yr ymchwiliad yn deg nac yn drwyadl, a/neu ni chafodd y canfyddiadau eu cadarnhau gan y dystiolaeth.

Os yw'r Is-Brifathro yn fodlon bod y naill neu'r llall o'r amodau uchod yn berthnasol, cynhelir ymchwiliad pellach. Bydd yr unigolyn yn cael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliad yn ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod gwaith i dderbyn yr Apêl neu'n cael gwybod am amserlen hirach.

Mewn amgylchiadau eithriadol o gwynion cymhleth neu hir, mae'r Prifathro yn cadw'r dewis i gynnal adolygiad i roi sicrwydd ychwanegol ac i nodi unrhyw bwyntiau dysgu i'r coleg.

**Noder:** Os yw'r gŵyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Prifathro, dylid ei hanfon yn uniongyrchol at: Swyddog Llywodraethu, Campws Brynbuga, Brynbuga, NP15 1XJ.

**Dal yn bryderus?** Os yw'r unigolyn yn dal i boeni ar ôl dilyn y gweithdrefnau Cwynion ac Apelio a restrir uchod ac os yw'r dysgwr yn astudio cwrs AU ac yn cael cyllid cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru, cyfeiriwch at Atodiad D.

## Cwynion Maleisus

Lle bo'r coleg wedi ymchwilio i gŵyn a'r canlyniad yw bod y gŵyn yn faleisus, ceidw'r coleg yr hawl i ystyried a ddylid dwyn achos yn erbyn yr achwynydd os gwnaed datganiadau a/neu honiadau ffug.

Os yw'n debygol bod dysgwr yn y coleg wedi gwneud datganiadau a/neu honiadau ffug yn erbyn y coleg neu ei aelodau o staff, yna gellir mynd ar drywydd y mater ymhellach o dan y Polisi Disgyblu Dysgwyr.

## Monitro cwynion ac adrodd arnynt

Bydd pob cwyn yn cael ei chofnodi, ei thracio a'i rheoli gan yr ARWEINYDD.

Bydd nifer a natur y cwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro gan y Tîm Ansawdd a'u defnyddio fel sail ar gyfer Adroddiad Cwynion bob tymor, gan fanylu ar nifer a natur y cwynion, sy'n cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain bob tymor. Mae'r adroddiadau hyn yn sail ar gyfer cyflwyno Adroddiad Cwynion Blynyddol i'r Gorfforaeth gan yr Is-Brifathro (Partneriaethau a Thaith y Dysgwr).

## Dysgu o gwynion

Cyn gynted â phosibl ar ôl cau'r gŵyn, bydd y rheolwr a fu'n delio â'r gŵyn yn rhoi gwybod i'r achwynydd a staff yr ysgol neu'r adran berthnasol am ganfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw argymhellion. Fan leiaf, bydd y coleg yn:

- Defnyddio themâu a data cwynion i ganfod gwraidd y cwynion

- Cymryd camau i leihau'r risg y bydd hyn yn digwydd eto
- Cofnodi manylion camau unioni yn y ffeil gwynion
- Adolygu adroddiadau perfformiad cwynion yn systematig er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir.

## Cael help i wneud eich cwyn

Mae'r coleg yn deall y gallai rhai unigolion fethu, neu fod yn amharod, i wneud cwyn eu hunain. Derbynnir cwynion gan gynrychiolydd person sy'n anfodlon â'r gwasanaeth a ddarperir. Gall y coleg dderbyn cwynion gan ffrind neu berthynas os ydynt wedi cael caniatâd i gwyno ar ran yr unigolyn.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau'n hawdd i bawb eu defnyddio. Yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb statudol, bydd y coleg bob amser yn cymryd gofal i wneud addasiadau rhesymol i helpu unigolion i gael mynediad at wasanaethau'r coleg a'u defnyddio.

Gellir darparu'r wybodaeth hon mewn ieithoedd a fformatau eraill, megis print bras neu Braille. Cysylltwch â Gwasanaethau Dysgwyr ar y campws.

## ATODIAD A

**Enghreifftiau o fathau o gwynion**

- ❖ Methiant i ddarparu gwasanaeth, neu ansawdd neu safon gwasanaeth annigonol
- ❖ Y broses dderbyn
- ❖ Y broses ddisgyblu
- ❖ Cais am wasanaeth neu am wybodaeth, nad ydym wedi gweithredu arno nac wedi'i ateb
- ❖ Ein polisïau
- ❖ Gwybodaeth anghywir am raglenni academaidd neu ein gwasanaethau
- ❖ Ansawdd ac argaeledd cyfleusterau ac adnoddau dysgu
- ❖ Hygyrchedd ein hadeiladau neu'n gwasanaethau
- ❖ Ymddygiad dysgwr, aelod o staff neu gontractwr
- ❖ Triniaeth gan neu agwedd aelod o staff neu gontractwr
- ❖ Anghytuno â phenderfyniad pan na allwch ddefnyddio gweithdrefn arall, e.e. apelio
- ❖ Ein methiant i ddilyn y broses weinyddol briodol

Efallai y bydd eich cwyn yn ymwneud â mwy nag un gwasanaeth coleg neu'n ymwneud â rhywun sy'n gweithio ar ein rhan, fel contractwr.

Mae rhai pethau na fyddem yn eu categoreiddio fel cwyn, naill ai oherwydd eu bod yn geisiadau neu oherwydd bod gennym bolisïau a gweithdrefnau eraill i ddelio â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ❖ Cais am wybodaeth neu esboniad o bolisi neu ymarfer
- ❖ Anghytuno â barn academaidd
- ❖ Cais am iawndal yn erbyn y coleg
- ❖ Materion sydd yn y llys neu sydd eisoes wedi cael eu clywed gan lys neu dribiwnlys
- ❖ Anghytuno â phenderfyniad lle mae hawl i apelio, e.e. Polisi Apeliadau Dysgwyr
- ❖ Cais am wybodaeth dan y Ddeddf Diogelu Data neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- ❖ Achwyniad gan aelod o staff
- ❖ Ymdrech i gael y coleg i agor neu ailystyried cwyn rydym wedi'i dirwyn i ben neu wedi rhoi ein penderfyniad terfynol arni.

Os gall gweithdrefnau neu hawliau apelio eraill eich helpu i ddatrys eich pryderon, byddwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor i'ch helpu.

## ATODIAD B

### Meini Prawf Coch, Ambr, Gwyrdd (RAG): Gwahaniaethu rhwng Cwynion Difrifol a Rhai nad ydynt yn Ddifrifol

| Gradd | Maen Prawf | Enghraifft o gŵyn/materion |
|---|---|---|
| Coch | Materion difrifol y mae angen ymchwiliad llawn iddynt ac sy'n debygol o gael effaith ar enw da'r coleg, neu lle mae'r gŵyn yn arwain at niwed anadferadwy i'r coleg/cwsmer a/neu'r berthynas rhwng y dysgwr a'i gymheiriaid | • Troseddau casineb<br>• Aflonyddu rhywiol<br>• Bwlio systematig parhaus neu fwlio mwy difrifol<br>• Iaith ddifrïol/bygythiadau<br>• Cario arfau ymosodol<br>• Bod dan ddylanwad cyffuriau (gan gynnwys alcohol), bod ym meddiant cyffuriau neu brynu neu werthu cyffuriau ar safle'r coleg |
| Ambr | Materion y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt ac sy'n debygol o gael effaith negyddol ar brofiad y cwsmer, e.e. lle mae'r coleg yn methu, neu'n parhau i fethu â darparu gwasanaeth o safon dderbyniol neu lle mae ymddygiad dysgwyr/staff yn peri pryder | • Staff amharod i helpu a gwasanaeth gwael wedi'i ddarparu i gwsmeriaid<br>• Dysgwr yn gwrthod cofrestru<br>• Gwahoddiad i gofrestru heb ei anfon<br>• Arholiad y dysgwr heb ei gyflwyno i'w ailfarcio<br>• Dysgwr ddim yn gallu symud ymlaen i L3 heb esboniad digonol<br>• Camddealltwriaeth rhwng y dysgwr a'r darlithydd ynghylch ymddygiad staff yn yr ystafell ddosbarth |
| Gwyrdd | Mân faterion sy'n debygol o gael ychydig iawn o effaith ar brofiad y cwsmer ac sy'n syml ac yn hawdd eu datrys, nad oes angen llawer o ymchwil iddynt, os o gwbl | • Darlithoedd neu daith wedi'u canslo<br>• Maes parcio'r dysgwr wedi'i rwystro<br>• Bws wedi methu stopio ar y campws<br>• Heb ymateb i gais am wybodaeth grant y tro cyntaf<br>• Dryswch ynghylch pa ddosbarth lefel sgiliau i'w fynychu<br>• Dryswch ynghylch yr amserlen a'r ystafell |

**Noder:** Mae ‘cwsmer’ yn cyfeirio at ddarpar ddysgwyr, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr, aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill

**Atodiad C:**

**Cydnabod Cwyn**

Annwyl (enw cyntaf)

Cyfeirnod y Gŵyn: (Cyf CRM)

Diolch am dynnu fy sylw at eich pryderon, a dderbyniais ar (diwrnod/dyddiad). Hoffwn eich sicrhau y byddwn yn ymchwilio i'r mater yn gyflym ac yn drylwyr.

Y rheolwr sy'n ymchwilio i'ch pryder yw (*enw/teitl*) a bydd yn rhoi ymateb llawn i chi erbyn (*Dyddiad*: *15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y gŵyn*). Os na allwn ymateb o fewn yr amser hwn, byddwn yn ysgrifennu atoch eto i egluro'r oedi a chadarnhau pryd y gallwch ddisgwyl ymateb.

Mae'r coleg yn ddiolchgar am bob math o adborth gan ein bod yn ei ddefnyddio fel ffordd o wella ein gwasanaethau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod eich pryderon, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

**Estyniad i 15 diwrnod gwaith i ymateb i'r gŵyn**

Annwyl (enw cyntaf)

Cyfeirnod y Gŵyn: (Cyf CRM)

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi na fyddwn yn gallu rhoi ymateb llawn i chi tan (*dyddiad*). Mae hyn yn oherwydd:

- Rheswm 1
- Rheswm 2

Hoffwn ymddiheuro a diolch i chi am eich amynedd. Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod eich pryderon ymhellach.

Yn gywir,

## ATODIAD D

## Dysgwyr AU* sy'n derbyn cyllid cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru:

**Dal yn bryderus:** Os ydych yn dal yn bryderus ar ôl dilyn i'r pen y gweithdrefnau Cwynion ac Apelio a restrir uchod, gallwch gyfeirio eich cwyn at y canlynol:

Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA): "ar gyfer myfyrwyr mewn addysg uwch"

http://oiahe.org.uk/making-a-complaint-to-the-oia/how-to-make-a-complaint.aspx#

*Nid yw'n cynnwys dysgwyr ar gyrsiau AU a ddyfernir gan gorff heblaw prifysgol, e.e. HNC/Ds a ddyfernir gan Edexcel. Dylid cyfeirio dysgwyr ar y cyrsiau hyn at yr Adran Addysg a Sgiliau

**Noder:** Bydd angen cwblhau Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (Atodiad E) ar gyfer unrhyw ddysgwr AU sy'n dymuno apelio i'r Cynllun OIA. Nid yw rheolau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn cynnwys cwynion am dderbyniadau a dyfarniadau academaidd, cwynion nad ydynt yn cael eu cyflwyno o fewn amserlen benodol, na chwynion am faterion nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar y dysgwr fel dysgwr

# ATODIAD E

## Templed Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau

Sylwer - gellir addasu'r fformat i fodloni amgylchiadau unigol cwyn cyn belled bod y pwyntiau allweddol isod wedi'u cynnwys.

Annwyl [*Enw’r achwynydd*],

<u>Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau</u>

Mae'r llythyr hwn yn cadarnhau bod gweithdrefnau mewnol [*enw'r darparwr addysg uwch*] mewn perthynas â'ch cwyn / apêl ac ati* mewn perthynas â [*disgrifiwch*] wedi'u cwblhau.

Y materion a godwyd gennych yn eich cwyn / apêl ac ati* oedd [*manylion*]

Y mater(ion) a ystyriwyd mewn perthynas â'ch cwyn / apêl ac ati oedd / oedd*: [*crynodeb byr o'r gŵyn ac ati*].

Penderfyniad terfynol [*enw'r darparwr addysg uwch*] yw* [*manylion*] oherwydd [*rhesymau*].

Dyma'r gweithdrefnau / rheoliadau a ddefnyddiwyd*: [*manylion a dyddiad fel y'u rhoddwyd i Fanc Rheoliadau electronig Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol*].

Mae [*enw'r darparwr*] yn tanysgrifio i'r cynllun annibynnol ar gyfer adolygu cwynion myfyrwyr. Os ydych yn anfodlon â'r canlyniad, efallai y gallwch wneud cais am adolygiad o'ch cwyn / apêl ac ati* i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) ar gyfer Addysg Uwch ar yr amod bod y gŵyn yr ydych yn ei chyfeirio at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn gymwys o dan ei Rheolau.

Os byddwch yn penderfynu gwneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, rhaid i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dderbyn eich Ffurflen Gwyno o fewn 12 mis i ddyddiad y llythyr hwn, hynny yw, rhaid iddi gyrraedd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar neu cyn [*rhoi dyddiad e.e. Os mai dyddiad ar y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yw 9 Gorffennaf 2015, 9 Gorffennaf 2016 ddylai’r dyddiad hwn fod*].

[*Nodwch yma unrhyw ffactorau y mae'r darparwr yn ymwybodol ohonynt sy'n golygu ei bod yn arbennig o bwysig i'r myfyriwr gyflwyno'r gŵyn yn brydlon*.]

Gallwch lenwi ffurflen gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar-lein neu lawrlwytho copi oddi ar wefan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. http://oiahe.org.uk/making-a-complaint-to-the-oia/oia-complaint-form.aspx. Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol hefyd yn cyhoeddi Cyflwyniad i Gynllun Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Myfyrwyr, y gellir ei lwytho i lawr o http://oiahe.org.uk/media/42715/oia_intro_leaflet_16pp.pdf. Fel arall, gallwch ffonio neu ysgrifennu at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol i gael ffurflen. Dylech anfon copi o’r llythyr hwn at Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol gyda’ch Ffurflen Gwyno OIA.

Mae canllawiau ar gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol a Ffurflen Gwyno Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol ar gael hefyd ar wefan yr OIA http://www.oiahe.org.uk/making-a-complaint-to-the-oia.aspx. Efallai yr hoffech hefyd ofyn am gyngor gan Undeb y Myfyrwyr ynghylch mynd â'ch cwyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Sylwch mai dim ond materion yr ymdriniwyd â hwy drwy weithdrefnau mewnol y darparwr y bydd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn eu hadolygu fel arfer.

Yn gywir,

[Llofnodwr awdurdodedig]

## Canllawiau Ychwanegol

1.0 Asesiad o’r Effaith ar Ofynion Cyfreithiol.

Mae deddfwriaeth yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus yn cynnal Asesiad o Effaith ar eu polisïau presennol neu ddrafft, eu harferion, eu swyddogaethau a’u gwasanaethau, ar sail hil, anabledd a rhyw. Wrth baratoi ar gyfer newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol mewn perthynas ag anabledd, bydd Asesiad Effaith y Coleg yn cael ei roi ar waith i ystyried yr effaith ar bob maes amrywiaeth.

2.0 Enghreifftiau o Grwpiau Targed Cydraddoldeb.

2.1 Oedran

Bydd angen i’r diffiniad o grwpiau oedran fod yn sensitif i’r polisi sy’n cael ei ystyried. Er enghraifft, mewn perthynas â pholisïau cyflogaeth, mae’r canol oed yn aml yn grŵp agored i niwed ac mae oedran pensiwn yn wahanol i ddynion a menywod.

2.2 Rhywedd

Dynion (gan gynnwys bechgyn), Menywod (gan gynnwys merched) a phobl drawsryweddol. Gall hyn hefyd gynnwys effaith ar ryw arbennig sydd ag ymrwymiadau gofal.

2.3 Anabledd

Pobl ag anabledd fel y’u diffinnir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, fel y rheini sydd â nam ar eu clyw, nam ar eu golwg, anabledd corfforol, anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl.

2.4 Grŵp Hil

Grŵp o bobl a ddiffinnir gan hil, lliw, cenedligrwydd a tharddiad ethnig neu genedlaethol. Mae enghreifftiau’n cynnwys: Sipsiwn Romani, Iddewon, Siciaid, Tsieineaidd, Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Du Affricanaidd, Du Caribïaidd, Gwyn, Gwyddelig, Cymreig, Twrcaidd, Groeg Cyprus, grŵp ethnig cymysg, unrhyw grŵp ethnig/cenedligrwydd ethnig arall.

2.5 Ffydd/Crefydd

Mae crefydd neu gred yn unrhyw grefydd, cred grefyddol neu gred athronyddol debyg ond nid yw’n cynnwys unrhyw gred athronyddol neu wleidyddol oni bai ei bod yn debyg i gred grefyddol. Mae cred grefyddol yn debygol o gynnwys rhyw fath o addoli ar y cyd, system gred glir neu gred ddofn sy’n effeithio ar ffordd o fyw neu olwg y byd. Mae’r rheoliadau hefyd yn ymdrin â diffyg cred. Mae enghreifftiau’n cynnwys; Bwdhaeth, Cristnogaeth (Protestannaidd, Catholig ayb), Hindŵaeth, Anffyddiwr, Agnostig ac ati, unrhyw grefydd arall.

2.6 Cyfeiriadedd Rhywiol

Fel y’i diffinnir yn Rheoliad Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003:
- Tueddiad tuag at bobl o’r un rhyw (hoyw/lesbiaidd)
- Tueddiad tuag at bobl o’r rhyw arall (heterorywiol)
- Tueddiad tuag at bobl o’r un rhyw a’r rhyw arall (deurywiol)

2.7 Arall (er enghraifft yr Iaith Gymraeg)

Mae hyn yn cynnwys gwahanol fathau o gontractau, fel amser llawn, rhan amser, cyflog fesul awr neu unrhyw faes arall nad yw eisoes yn cael sylw, fel pobl agored i niwed e.e. dioddefwyr trais domestig a phriodasau dan orfod.